**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf**

**13 Medi 2024**

0900 – 1230

Lleoliad: Llys Cadwyn

**Yn bresennol**
James Price (Cadeirydd), Alexia Course, Jan Chaudhry Van der Velde, Heather Clash, Marie Daly a Peter Strachan.

**Hefyd yn bresennol**
Julian Edwards (Cyfarwyddwr Anweithredol Cysylltiol) a Jeremy Morgan.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Dim.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**
Cadarnhaodd yr aelodau fod eu datganiadau o fuddiannau yn dal yn gyfredol ac nad oedd unrhyw fuddiannau ychwanegol i'w datgan yn ymwneud yn benodol ag eitemau ar yr agenda. Mae Heather Clash, Alexia Course a James Price yn gyfarwyddwyr Ffeibr TrC Cyf. Julian Edwards yw rheolwr-gyfarwyddwr dros dro Cross Country Trains Ltd.

**2. Sylw i ddiogelwch**.
[redacted]

**3. Sylw i Gwsmeriaid**
Croesawodd y Bwrdd y perfformiad cadarnhaol cyffredinol a'r profiad yn ystod yr Eisteddfod ym Mhontypridd yn ddiweddar.

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**
Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 16 Awst 2024. Nodwyd y Log Camau Gweithredu.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**
Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau.

Roedd adolygiad y Prif Swyddog Gweithrediadau yn canolbwyntio ar y materion canlynol:

- Roedd galw a refeniw tocynnau'r cyfnod yn uwch na'r targed ac wedi mynd £0.4m dros y gyllideb. Roedd y cyfraddau sganio hefyd yn gadarnhaol gyda chyfraddau ar y trên 61% yn uwch na'r un cyfnod y llynedd.

- Roedd darpariaeth gwasanaethau'n gymysg yn ystod y cyfnod, ond gwelwyd perfformiad gwell ar Linellau Craidd y Cymoedd gyda llai o wasanaethau'n cael eu canslo. Roedd problemau perfformiad yn deillio'n gyffredinol o brinder cerbydau, yn enwedig materion mwy sylfaenol gydag unedau Cl197 a phroblemau dros dro â'r Cl158.
- [redacted]
- Mae ymchwiliadau i faterion technegol gydag unedau Cl158 yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd, ond mae problemau'n ymwneud â chyflenwad deunyddiau. . Mae tair o'r pedair set wedi'u hatgyweirio, ond mae gwaith ar y bedwaredd set yn debygol o gymryd rhai wythnosau wrth i ni geisio cael gafael ar gydrannau, a gallai achosion pellach o broblemau gyda'r gyriant meistr / gwas ddod i'r amlwg wrth fonitro. Mae hyn yn achosi prinder dros dro o unedau Cl158.
- Mae cael mwy o locomotifau wedi bod yn hanfodol i drawsnewid y gwasanaeth MKIV. Trafododd y Bwrdd ddichonoldeb ymestyn oes unedau MKIV y tu hwnt i 2030, a chytunodd i ddechrau archwilio rhinweddau gwneud hynny **[Jan Chaudhry Van-der-Velde i weithredu]**.
- Hefyd, trafododd y Bwrdd berfformiad Network Rail, gwell gwasanaethau yn lle trenau i ategu'r gwasanaethau rheilffyrdd presennol ar gyfer Gŵyl Fwyd y Fenni, a thrafodaethau parhaus gyda Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd (ORR) ynghylch hawliau mynediad ar gyfer newidiadau i amserlenni Cymru a'r Gororau ym mis Rhagfyr 2024.

**5.1 Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Strategol**
Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**5.2 Adroddiad Sicrhau Diogelwch**
*Ymunodd Leyton Powell â'r cyfarfod.*

Croesawodd y Bwrdd y cipolwg ychwanegol a ddarparwyd yn yr adroddiad.

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad diogelwch diweddar yn ymwneud â diogelwch galwedigaethol a gweithredol, a chroesawodd y perfformiad cadarnhaol.

Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf hefyd ynghylch llesiant, cyfarfodydd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch rheoli gwastraff, a gwaith parhaus ynghylch paratoi ar gyfer y gaeaf.

Mae adroddiad Ymchwiliad Tŵr Grenfell yn cael ei adolygu er mwyn nodi unrhyw ganfyddiadau perthnasol a/neu argymhellion ar gyfer TrC.

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**6. Dangosfwrdd Risg Rheilffyrdd**
Nododd y Bwrdd y dangosfwrdd.

*Gadawodd Leyton Powell y cyfarfod.*

**7. Adolygiad ariannol**

*Ymunodd Stephanie Raymond â'r cyfarfod.*

Trafododd y Bwrdd y perfformiad ariannol ar gyfer cyfnod rheilffyrdd 5. [redacted]

*Gadawodd Stephanie Raymond y cyfarfod.*

**8. Diweddariad masnachol**

*Ymunodd Rob Paige â'r cyfarfod.*

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i'r diweddariad masnachol a oedd wedi'i gynnwys yn y pecyn [redacted]

*Gadawodd Rob Paige y cyfarfod.*

**9. Dyfodol Multiflex**

*Ymunodd Mesha Sutherland â'r cyfarfod.*

Ystyriodd y Bwrdd bapur y gofynnodd aelodau'r Bwrdd Rheilffyrdd amdano ym mis Gorffennaf 2024 i fynd ar drywydd perfformiad presennol cynnyrch Multiflex a sut mae'n amrywio ar draws y rhwydwaith. [redacted]

[redacted]

**10. Achos busnes MKIV HD08**

Ystyriodd y Bwrdd argymhelliad i adnewyddu'r cerbyd Mark 4 (HD08) sydd wedi'i ddatgomisiynu i'w wneud yr wythfed cerbyd gweithredol i gael ei ddefnyddio fel un 'wrth gefn' i leihau'r risgiau o ran gallu rhedeg y Gwasanaethau gofynnol rhwng Caerdydd a Chaergybi a rhwng Caerdydd a Manceinion, ac ystyriodd argymhelliad i ddechrau defnyddio DVT sbâr rhag ofn y bydd difrod i'r fflyd weithredol. [redacted] Cytunodd y Bwrdd fod yr achos busnes yn gadarn a chymeradwyodd yr argymhellion.

**11. Trenau Class 170**

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth ofalus i argymhelliad i waredu'r cerbydau Class 170 sydd o dan is-brydles i Transport UK East Midlands Limited sy'n masnachu fel (EMR) ar hyn o bryd.

[redacted]

[redacted]

**Unrhyw Fater Arall**

**Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.**